# Arolygiad Practis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Practis Deintyddol Chapel Street

Dyddiad yr Arolygiad: 9 Chwefror 2017

Dyddiad Cyhoeddi: 10 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost:** hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-9547-0
© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad .... 2
2. Cyd-destun .... 3
3. Crynodeb .... 4
4. Canfyddiadau .... 5
    Ansawdd profiad y claf .... 5
    Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .... 8
    Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .... 13
5. Y Camau Nesaf .... 14
6. Methodoleg .... 15
    Atodiad A .... 17

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Bractis Deintyddol Chapel Street yn 15 Stryd y Capel, y Mwmbwls, Abertawe, SA3 4NH, ar 9 Chwefror 2017.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Chapel Street yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn gydnaws â darpariaeth gofal diogel ac effeithiol.  Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain mewn perthynas â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Chapel Street yn darparu gwasanaethau i gleifion yn y Mwmbwls, Abertawe, a'r ardaloedd o amgylch. Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae Practis Deintyddol Chapel Street yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar deintydd, gan gynnwys un deintydd sylfaen,[1] chwe nyrs ddeintyddol/staff derbynfa, ac un rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

---

[1] Mae’r prif ddeintydd hefyd yn hyfforddwr deintyddol sylfaenol cymwys. O ganlyniad, mae'r practis yn darparu lleoliadau a chefnogaeth i ddeintyddion sydd newydd gymhwyso ac sy'n ymgymryd â’u blwyddyn gyntaf mewn practis deintyddol (ar ôl cwblhau cwrs gradd yn y brifysgol).

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod Practis Deintyddol Chapel Street yn bodloni'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cleifion yn hapus gyda'r gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar, ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd digon o offer clinigol ac roeddent yn amlwg yn lân ac yn daclus
- Roedd offer deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Gwybodaeth ynglŷn â hybu iechyd
- Proses ar gyfer gwirio dyddiadau deunyddiau deintyddol
- Adolygu a diweddaru asesiadau risg
- Dull cyson o storio offer sydd wedi cael eu dadheintio
- Sicrhau bod hyfforddiant diweddaru mewn perthynas ag ymbelydredd yn cael ei gynnal yn gyson yn ôl y gofyn.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd profiad y claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Roedd gwefan y practis yn cyfeirio at fanylion ar sut i gwyno ac roeddent ar gael ar gais. Gwnaethom argymell y dylid arddangos y weithdrefn gwynion yn yr ystafell aros er mwyn i gleifion allu mynd ati'n rhwydd. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gwnaethom argymell bod y practis yn arddangos mwy o wybodaeth hybu iechyd er mwyn cefnogi cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd 16 holiadur. Nododd yr holl gleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi derbyn croeso a'u bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Bob amser yn cael y staff i fod yn gyfeillgar a chwrtais iawn a bob amser yn barod eu cymwynas ac yn broffesiynol"*
>
> *"Mae'r practis yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus ac wedi ymlacio pan fyddaf yn dod am apwyntiad"*
>
> *"Pobl hyfryd"*

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd.

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth gan yr holl gleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol, gyda chleifion yn datgan eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael croeso gan y staff.

Gwelsom fod rhestr brisiau o'r triniaethau ar gael fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth (lle'r oedd

cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau ar adegau pan oedd cleifion yn yr ystafell i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Gwnaeth y practis bob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu'n brydlon. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion mewn holiaduron AGIC nad oeddent wedi profi unrhyw oedi afraid wrth aros i gael eu gweld gan y deintydd. Roedd y rhif ffôn i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn cael ei arddangos ar y wefan ac yn y ffenestr er mwyn i gleifion allu cael mynediad at wybodaeth am ofal deintyddol brys pan fo'r practis ar gau.

Cadw'n iach

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd rhai taflenni gwybodaeth i gleifion a thaflenni hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros ac roedd geiriau i gall ar gael ar wefan y practis. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried darparu rhagor o wybodaeth/posteri hybu iechyd sy'n berthnasol i'w gleifion, megis ymwybyddiaeth canser y geg, rhoi'r gorau i ysmygu, a gwybodaeth gyffredinol am sut y gallai cleifion wella iechyd eu cegau. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn gymorth i gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid darparu gwybodaeth hybu iechyd bellach i gleifion.***

Gofal unigol

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Roedd holiaduron i gleifion yn cael eu dosbarthu ac roedd y canlyniadau'n cael eu pasio i reolwr y practis ac yn cael eu hadolygu.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Gwelsom fod y weithdrefn yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch nodi pryderon am driniaeth y GIG (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[2] Rheolwr y practis oedd y rheolwr cwynion

---

[2] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

penodedig ac roedd yn cadw golwg dros yr holl gwynion. Roedd cwynion yn cael eu harchwilio i ganfod unrhyw themâu, fel y gellid cymryd camau a dysgu unrhyw wersi. Roedd gwefan y practis yn dangos bod y gweithdrefnau cwyno ar gael ar gais wrth ddesg y dderbynfa. Fodd bynnag, nododd saith o'r 16 claf a ymatebodd i holiaduron AGIC nad oeddent yn siŵr sut i gwyno. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom gynghori y dylid arddangos y manylion cwyno'n amlwg yn y man aros a chwblhawyd hyn ar unwaith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i wybodaeth am weithdrefnau cwyno gael ei harddangos a rhaid iddi fod yn weladwy yn unol â chanllawiau a safonau.***

## *Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol*

**Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd digon o offer yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio a'i waredu mewn modd diogel. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru hyfforddiant ymbelydredd dau aelod o staff yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.**

**Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddaru rhai asesiadau risg ac roedd y practis yn cymryd camau i drefnu i hyn gael ei wneud ar adeg yr arolygiad.**

**Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl, ac roedd angen i staff ddiweddaru eu hyfforddiant. Canfuom safon dda iawn o gadw cofnodion ar y cyfan, ond mae angen i rai meysydd gael eu cynnal yn gyson.**

<u>Gofal diogel</u>

*Cyfleusterau clinigol*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion. Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda i bob golwg ac roedd yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd y peiriannau nwy wedi cael eu gwasanaethu yn ôl y gofyn. Roedd y dystysgrif gwifrau trydan pum mlynedd ar gyfer y safle yn gyfredol. Cadwyd cofnod o'r gwiriadau dyddiol a gynhaliwyd ar gyfer y cywasgydd. Fodd bynnag, canfuom fod deunyddiau deintyddol a oedd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio'n cael eu cadw yn nroriau'r ystafell driniaeth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio bod yr holl ddeunyddiau deintyddol sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio'n cael eu gwaredu'n briodol.***

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi'u cynnal i sicrhau bod dyfeisiadau trydanol bach yn cael eu defnyddio'n ddiogel yn y practis. Roedd y prif ddeintydd wedi cymryd cyngor gan beiriannydd trydanol ac wedi cynnal asesiad risg a oedd yn dangos y dylid cynnal y profion hyn bob tair blynedd. Roedd diffoddwyr tân ar gael ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd ac roedd arwyddion tân yn amlwg. Roedd rheolwr y practis wedi cwblhau asesiad risg tân ac, yn dilyn trafodaeth, cytunodd rheolwr y practis y byddai'n fanteisiol trefnu bod darparwr gwasanaeth tân priodol yn cynnal adolygiad o'r asesiad risg tân a gwnaed trefniadau ar ddiwrnod yr arolygiad i gynnal yr adolygiad hwn.

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gweld bod taflenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Roedd eitemau COSHH yn cael eu cadw'n ddiogel.

Roedd polisi iechyd a diogelwch, a gwelsom fod asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi bod angen adolygu'r asesiadau risg amgylcheddol. Mae hyn oherwydd bod angen rhoi ystyriaeth bellach i ddiogelwch y cywasgydd a sut i storio a chael mynediad at eitemau fel gwastraff (yn yr ardal dan y grisiau) ac roedd angen adolygu diogelwch storio deunydd deintyddol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddaru asesiadau risg amgylcheddol.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio.
- Sinc benodol i olchi dwylo.

- Roedd yr offer a oedd yn cael eu defnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg.
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profion dyddiol.
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio.
- Roedd y practis wedi cwblhau archwiliad rheoli heintiau fel yr argymhellir gan ganllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.[3]

Canfuom fod angen rhoi sylw i sut oedd un ddysgl dal offer yn cael ei storio, gan fod y bag dadheintio ar agor a'i bod yn cael ei storio mewn cwpwrdd gydag eitemau amrywiol eraill yn ystafell driniaeth dau.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ddefnyddio dull cyson ar gyfer storio offer sydd wedi cael eu dadheintio.***

Roedd tystiolaeth o statws gwirio brechiadau imiwneiddio ar gyfer yr holl staff perthnasol. Hysbyswyd y prif ddeintydd bod rhaid cadw cofnodion o imiwnedd a sicrhau eu bod yn gyfredol a/neu fod tystiolaeth o imiwnedd gydol oes yn cael ei chadw pan fo hynny'n berthnasol.

Hysbysir y practis bod angen diweddaru hyfforddiant dadheintio bob pum mlynedd fel rhan o'r cylch datblygiad proffesiynol parhaus, ar gyfer yr holl staff perthnasol, gan i ni nodi bod angen diweddaru'r hyfforddiant hwn yn fuan ar gyfer yr holl staff.

*Cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol.

Gwnaethom argymell y dylid cadw cofnod o'r gwiriadau rheolaidd o gyffuriau brys. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac roedd taflenni damweiniau'n cael eu ffeilio'n ddiogel er mwyn cynnal safonau diogelu data.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Roedd y practis wedi penodi swyddogion cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol.

*Diogelu*

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Roedd polisïau amddiffyn priodol ar waith ac roedd hyfforddiant diweddaru diogelu wedi cael ei drefnu ar gyfer 14 Chwefror 2017 er mwyn sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn gyfredol yn y maes hwn. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriadau bob tair blynedd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar.

*Offer radiograffeg*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffig at ddibenion sicrhau ansawdd. Canfuom fod y rhan fwyaf o'r staff sydd ynghlwm wrth dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[4] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

Gwnaethom esbonio i'r prif ddeintydd mai'r cylch datblygiad proffesiynol parhaus gofynnol ar gyfer hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 oedd pum mlynedd. Roedd hyfforddiant Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 un aelod o staff wedi darfod ac roedd hyfforddiant wedi ei drefnu ar gyfer 17 Chwefror 2017.

---

[4] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

Derbyniodd AGIC dystiolaeth yn fuan ar ôl yr arolygiad bod yr unigolyn wedi cwblhau hyfforddiant dilynol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen trefnu sesiynau diweddaru hyfforddiant mewn amddiffyn rhag ymbelydredd ar gyfer yr holl staff perthnasol yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

**Gofal effeithiol**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol ar gyfer pob deintydd a gwnaethom siarad â'r prif ddeintydd ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod gofal cleifion o ansawdd da iawn a bod y gwaith o gadw cofnodion clinigol cleifion yn ardderchog.

## *Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis hwn yn cael ei reoli a'i arwain yn effeithiol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan reolwr y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn dda. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal, gan gynnwys gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rheolwr y practis a'r prif ddeintydd oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu swyddogaethau. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr y practis. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis.

Dywedodd rheolwr y practis fod arfarniadau wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod y rhain yn cael eu cofnodi.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a gwelsom eu bod yn berthnasol ac yn drefnus. Gwnaethom hysbysu'r staff bod angen rhoi system ar waith a chadw cofnod i ddangos pryd mae polisïau a gweithdrefnau wedi cael eu hadolygu a/neu eu diweddaru.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Chapel Street yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn gyraeddadwy, yn amserol, yn fesuradwy, yn benodol, yn uchelgeisiol ac yn synhwyrol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â'r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**

Ffigur 1




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[6] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

---

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gennym yn ystod yr arolygiad, yn cynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Chapel Street

## Dyddiad yr Arolygiad: 9 Chwefror 2017

| **Rhif y dudalen** | **Yr hyn y mae angen ei wella** | **Rheoliad / Safon** | Camau gweithredu'r practis | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | | |
| 6 | Dylid darparu gwybodaeth hybu iechyd bellach i gleifion. | Safonau Iechyd a Gofal 1.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol* | Bydd deunydd hybu iechyd yn weladwy yn ystafelloedd aros y cleifion. | Allison Walker | 30/4/17 |

| **Rhif y dudalen** | **Yr hyn y mae angen ei wella** | **Rheoliad / Safon** | Camau gweithredu'r practis | **Swyddog cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *2.2* | | | |
| 6 | Mae'n rhaid i wybodaeth am weithdrefnau cwyno gael ei harddangos a rhaid iddi fod yn weladwy yn unol â chanllawiau a safonau. | Safonau Iechyd a Gofal 6.3<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Canllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol 5.1* | Mae'r weithdrefn gwyno yn cael ei harddangos yn y dderbynfa. | Allison Walker | 9/2/17 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | | |
| 8 | Mae'n rhaid i'r practis sicrhau bod proses ar waith ar gyfer gwirio bod yr holl ddeunyddiau deintyddol sydd wedi mynd heibio eu dyddiad defnyddio'n cael eu gwaredu'n briodol. | Safonau Iechyd a Gofal 2.6<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat | Mae taenlen wedi cael ei chreu ar gyfer rheoli stoc ac mae aelod penodol o staff yn gyfrifol am ei diweddaru. | Allison Walker | 10/2/2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | (Cymru) 2008 14 (3) (a)<br><br>Rheoliadau Camddefnyddio Cyffuriau (Gwarchod Diogel) (Diwygio) 2001 | | | |
| 9 | Mae'n rhaid i'r practis adolygu a diweddaru asesiadau risg amgylcheddol. | Safon Iechyd a Gofal 2.1<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 14 (1) (b)<br><br>*Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999* | Bydd yr asesiad risg amgylcheddol yn cael ei adolygu.<br><br>Bydd yr asesiad risg amgylcheddol yn cael ei ddiweddaru. | Allison Walker | 30/4/17<br><br>31/5/17 |
| 10 | Dylai'r practis ddefnyddio dull cyson | Safon Iechyd | Mae'r staff wedi derbyn | Allison | 31/3/17 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ar gyfer storio offer sydd wedi cael eu dadheintio. | a Gofal 2.4<br><br>Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | gwybodaeth am bolisi'r practis ar gyfer dadheintio offer deintyddol. | Walker | |
| 11 | Mae angen trefnu sesiynau diweddaru hyfforddiant mewn amddiffyn rhag ymbelydredd ar gyfer y staff yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Safon Iechyd a Gofal 2.9<br><br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 Rheoliad 14 (1) (b)<br><br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | Mae hyfforddiant amddiffyn rhag ymbelydredd yr holl staff yn gyfredol.<br><br>Bydd hyfforddiant diweddaru'n cael ei gadw'n gyfredol ar gyfer yr holl staff perthnasol. | Allison Walker<br><br>Allison Walker | 10/2/2017<br><br>31/12/2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Dim | | | | |

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **Allison Walker**

**Teitl:** **Perchennog y Practis a Phrif Ddeintydd**

**Dyddiad:** **30/03/2017**